# LC1361

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** | **LEGISLATION COMMITTEE REPORT** |

## Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a’r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006

Mae’r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau pellach Deddf Cymdogaethau Glân a’r Amgylchedd 2005 ("Deddf 2005") mewn perthynas â Chymru.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwynt canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7

Mae testun Saesneg erthygl 4(kk) yn cynnwys croesgyfeiriad at ddarpariaethau Atodlen 1 y Ddeddf nas cychwynnwyd gan erthygl 2(q). Nid yw Erthygl 2(q) yn cyfeirio at ddarpariaethau o’r fath. Byddai’r croesgyfeiriad cywir at erthygl 2(p). Mae’r ddarpariaeth Gymraeg gyfatebol (erthygl 4(f2)) yn cyfeirio’n gywir at erthygl 2(m). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wall drafftio neu deipograffyddol yw hwn sy’n addas i’w gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae’r cyfeiriadau at erthygl 4 uchod yn amlygu’r system baragraffu wahanol a ddefnyddir yn y ddwy iaith. Pan fydd yr wyddor wedi ei defnyddio i gyd, mae’r testun Saesneg yn dilyn y traddodiad o ddyblu llythrennau ( "(aa)", "(bb)" ac yn y blaen). Byddai defnyddio llythrennau dwbl yn Gymraeg

yn arwain at gyfeiriadau afrosgo fel "(chch)", a hyd yn oed yn waeth "(dddd)". I osgoi hyn, mabwysiadwyd yr arferiad o ailadrodd yr wyddor gyda 2 ar ôl y llythyren. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf Offerynnau Statudol sy’n ymdrin â hyn, felly gallai’r Cynulliad Cenedlaethol fabwysiadu dull newydd a chyson yn y ddwy iaith ar yr achlysuron prin hynny pan fydd llythrennu yn mynd y tu hwnt i’r wyddor lawn.

Yn y testun Saesneg cymerir y disgrifiadau ar ôl rhifau’r adrannau o’r Ddeddf ac fe’u cynhwysir er hwylustod. Cyfieithiadau yw’r rhai hynny yn y testun Cymraeg felly. Fodd bynnag, cyfieithwyd "remove/removal" fel "symud", "tynnu" a "gwaredu", tra bod "gwaredu" hefyd wedi ei ddefnyddio am "disposal". Ni achoswyd unrhyw amwysedd yn yr achos hwn oherwydd rhif yr adran yw’r cyfeiriad hanfodol. Nid pwynt adrodd yw hwn felly ond mae cysondeb yn ddymunol.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 10 Hydref 2006